

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Rhagfyr 11eg 2012 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Arwel Davies (Cadeirydd), Geraint Jones, Gwynfryn Williams, Geraint Davies, Gwynedd Jones, Jean Roberts a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwilym Davies, Euros Puw, Rhys Richards a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Croesawyd Huw Antur i'r cyfarfod a chafwyd diweddariad ganddo ar weithgareddau Partneriaeth Penllyn. Roedd hi'n gyfnod allweddol ac roedd yn angenrheidiol iddynt ffurfio 'Cwmni o dan Warant' a gofynnwyd i'r Cyngor ddewis ddau gynghorydd i weithredu fel rhai o gyfarwyddwyr y cwmni newydd. Gan fod Geraint Davies a Geraint Jones yn cynrychioli'r Cyngor eisoes ar bwyllgorau'r Bartneriaeth cytunwyd mai eu penderfyniad hwy ydoedd. Cytunodd y ddau i'r cynllun a diolchwyd i Huw am fynychu'r cyfarfod.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Ysgol Y Parc.

Derbyniwyd llythyr gan Swyddog Adfywio Bro - Trefniadaeth Ysgolion, Cyngor Gwynedd ynglŷn ag ôl ddefnydd safle Ysgol Y Parc. Cytunwyd i drefnu cyfarfod yn Y Parc gyda Phwyllgor Rheoli'r Neuadd a'r Swyddog Adfywio i drafod dyfodol yr adeilad.

Ymateb i'r cwynion a anfonwyd i Gyngor Gwynedd:-

Bin ysbwriel ychwanegol i groesffordd Y Fron, Parc.

Derbyniwyd e-bost yn egluro y byddai'r safle yn cael ei archwilio i sicrhau bod cyfaint digonol ar gael i'r nifer tai sydd yn defnyddio'r pwynt casglu. Roeddynt hefyd am sicrhau bod gan y trigolion gasgliadau ailgylchu a bwyd a fyddai'n lleihau'r hyn a roddir yn y biniau gweddillion.

Ffosiydd ar y ffordd o Llannerch Las i bentref Parc a ger Ceunant Uchaf, Maesywaen.

Roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi asesu'r safle ac wedi nodi lle oedd angen sylw. Nid oedd yn gallu dweud ar hyn o bryd pryd y byddai'r gwaith ar y ffordd o Llannerch Las i'r Parc yn cael ei wneud ond byddai'r ffos ger Ceunant Uchaf yn cael ei agor yn fuan.

Culfan newydd ar y ffordd rhwng Groeslon a phont Ceunant, Maesywaen.

Roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi cyfarfod ar y safle gyda Gwynedd Jones ac roedd yn bosib y byddant yn ystyried culfan newydd yn y flwyddyn ariannol 2013/14 os byddai cyllid ar gael.

Pwll dwr ar y ffordd ger y pentref, Parc.

Yn dilyn y wybodaeth ychwanegol roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi asesu'r safle ac roedd yn cytuno bod y ffosiydd angen eu cynnal. Roedd trefniadau wedi ei gwneud i gynnwys y safle ar eu rhaglen waith.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd

- i) Copi o'r llyfryn 'Cynlluniau Cist Gwynedd 2011'.
- ii) Rhaglen Waith Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Rhagfyr.

b) Un Llais Cymru

- i) Copi diweddaraf Y Llais.
- ii) Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal ym Mhafiliwn Criced Dolgellau, 9/1/13.

c) Heddlu Gogledd Cymru

i) Derbyniwyd gwybodaeth am eu hymgyrchoedd 'Action Fraud', 'Ymgyrch 12 Dydd y Nadolig' a'r 'Cynllun Atal Yfed a Gyrru'.

ch) Amrywiol

i) Scrubadub - Derbyniwyd gwybodaeth am eu gwasanaeth glanhau llochesi bws.

ii) Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Llythyr ynglŷn â'r 'Ymgyngoriad ar y Bil Llywodraeth Leol'.

iii) Comisiwn Ffiniau i Gymru - Derbyniwyd copi o gynigion diwygiedig ar gyfer newid Etholaethau Seneddol yng Nghymru.

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol:-

NP5/72/223B – Cais ol-weithredol i ail godi cwt moch. Blaen y Cwm, Parc.

Cytunwyd i gefnogi'r cais.

Derbyniwyd cadarnhad bod y ceisiadau canlynol wedi cael eu caniatáu:-

NP5/72/224 - Codi tŷ i weithiwr amaethyddol. Tir yn Fferm Fron Gain, Maesywaen.

NP5/72/40E – Codi adeilad amaethyddol. Tyddyn Du, Parc.

NP5/63/267 - Codi deorfa eog a gwaith cysylltiol. Tir ger Llyn Celyn.

Materion Ariannol.

Cyllideb a Praesept 2013-14.

Cafwyd braslun o'r gyllideb ar gyfer 2013-14 gan y clerc, a chafwyd yn gywir. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i godi'r Praesept i £3,300 ar gyfer 2013-14.

Cytunwyd i dalu Cyngor Gwynedd am gostau Etholiad Mai 2012.

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Linell Gymorth Camdriniaeth, Marie Curie, GISDA, Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod Talybont, Urdd Gobaith Cymru a Chymorth i Ddiodefwyr Cymru. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

Unrhyw Fater Arall.

Eisteddfod del Chubut, Patagonia.

Ar ran y Cyngor mynegodd y Cadeirydd longyfarchiadau i Gwynedd Jones ar ennill cystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod del Chubut, Mhatagonia yn ddiweddar.